Hawdd ei Ddeall

ADSS Cymru

Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru

Leading Social Services in Wales

# Ein hadolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gwasanaethau Seibiant

## Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar wasanaethau dydd



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gwasanaethau Seibiant/Seibiant Byr**'.

**Tachwedd 2023**

# Sut i ddefnyddio’r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch angen help i’w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod i’ch helpu.



Mae’r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd i’w deall. Mae beth mae’r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 27**.

Lle mae’r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru**. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:** www.adss.cymru/cy

**E-bost:** contact@adss.cymru

**Ffôn:** 01443 742641

Gwnaeth **Hawdd ei Ddeall Cymru** y ddogfen hon yn **Hawdd ei Ddeall** gan ddefnyddio **Photosymbols.** I ddweud eich barn wrthym am y fersiwn hawdd ei darllen hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded ffotosymbolau 403527247.**

# Cynnwys


**Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma ........ 2**

**Beth sydd yn y ddogfen yma ........ 4**

**Pam rydyn ni wedi gwneud yr adolygiad ........ 6**

**Sut rydyn ni wedi gwneud yr adolygiad ........ 7**

**Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod ........ 9**

**Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd ........ 21**

**Sut rydyn ni'n gallu gwella pethau yn y dyfodol ........ 24**

**Geiriau Anodd ........ 27**

# Beth sydd yn y ddogfen yma




Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ofyn i ni edrych ar sut y gwnaeth y pandemig Covid-19 effeithio ar wasanaethau dydd a gwasanaethau **seibiant**.



**Seibiant** ydy pan fydd rhywun sydd angen cymorth yn aros rhywle am gyfnod byr. Efallai y bydd yn rhoi gorffwys i ofalwr.




Fe wnaethon ni hynny yn 2021.



Yna fe wnaeth y Llywodraeth ofyn i ni wneud **adolygiad** arall i weld a oedd unrhyw beth wedi newid.



Mae **adolygiad** yn meddwl edrych ar rhywbeth a gweld os ydy e wedi gwneud gwahaniaeth. Mae’n edrych ar beth sydd wedi cael ei wneud yn dda, a beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well.



Fe wnaethon ni edrych ar beth oedd yn dda a beth oedd yn ddrwg am wasanaethau wedi'r pandemig.



Fe wnaethon ni edrych ar Gymru gyfan yn yr **adolygiad** yma.



Ond oherwydd amser ac arian, doedden ni ddim wedi gallu siarad â phob awdurdod lleol.

# Pam rydyn ni wedi gwneud yr adolygiad



Roedd yr **adolygiad** yn edrych ar sut wnaeth y pandemig newid neu effeithio ar wasanaethau.



Ac i weld ydy'r pandemig wedi gwneud gwahaniaeth o hyd i wasanaethau.




Fe wnaethon ni edrych i weld a oedd ffyrdd newydd o gefnogi pobl.



Fe wnaethon ni ddarganfod a oedd pobl yn derbyn y gefnogaeth roedden nhw ei angen.



Fe wnaethon ni edrych ar sut roedd y pethau yma yn gwneud i bobl a'u teuluoedd deimlo.

# Sut rydyn ni wedi gwneud yr adolygiad




Fe wnaethon ni siarad â phobl wahanol, gan gynnwys:

- Nifer fach o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- Awdurdodau Lleol
- Sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau
- Staff



Fe wnaethon ni ddefnyddio gwahanol ffyrdd i wneud yr **adolygiad**.




Fe wnaethon ni anfon holiaduron ac arolygon i awdurdodau a sefydliadau lleol.



Fe wnaethon ni drefnu grwpiau ffocws yn gofyn i bobl am eu meddyliau a'u profiadau.



Fe wnaethon ni ymweld â gwahanol wasanaethau mewn gwahanol ardaloedd.



Fe wnaethon ni yn siŵr ein bod yn ymweld â gwahanol fathau o wasanaethau, mewn gwahanol rannau o Gymru.

Fe wnaethon ni weld llawer o enghreifftiau o newid mewn gwasanaethau ers y pandemig. Er enghraifft:



- Pobl yn defnyddio mwy o leoedd awyr agored.




- Pobl yn defnyddio eu hardaloedd lleol.

- Gwasanaethau sy'n cysylltu â chyfleoedd cymunedol lleol.



- A phobl ag anableddau dysgu yn cael eu cefnogi i gyflogaeth â thâl.

# Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod



Fe wnaeth nifer o sefydliadau ddweud  bod angen newid y ffordd y mae gwasanaethau dydd a **seibiant** yn cael eu cynnig.

## Sut mae’r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar wasanaethau




Cafodd y pandemig effaith fawr iawn ar wasanaethau dydd a **seibiant**.




Roedd rhaid i rai gwasanaethau gau.




Pan wnaethon nhw ailagor, roedd rhaid i rai gwasanaethau gynnig gwasanaeth llai. Er enghraifft, llai o sesiynau neu amseroedd sesiwn byrrach.

## Beth rydyn ni wedi ei ddarganfod:



Ychydig iawn o bobl ddaeth yn ôl i wasanaethau ar ôl iddyn nhw agor eto.



Doedd rhai adeiladau ddim yn addas iawn ar gyfer y gwasanaethau oedd yn cael eu darparu.



Doedd rhai mathau o wasanaethau ddim yn helpu i ddatblygu annibyniaeth pobl.



Fe ddywedodd llawer o wasanaethau eu bod yn defnyddio gwahanol fannau yn ystod y pandemig fel mannau cymunedol ac ardaloedd awyr agored.



Ond roedd llawer o bobl hefyd eisiau'r gwasanaethau yn ôl i sut roedden nhw.

## Problemau ariannol a staffio

**Rhai o'r problemau oedd:**



- Dim digon o arian.



- Prisiau pethau yn codi.



- Dim digon o staff.



- Staff sydd angen mwy o hyfforddiant i wneud i newid ddigwydd.



Fe ddylai awdurdodau lleol a darparwyr cymorth weithio gyda'i gilydd i wella pethau.



Rydyn ni yn credu y dylai fod pot o arian i awdurdodau lleol a darparwyr cymorth ei rannu'n gyfartal.



Fe fydd hyn yn helpu i wneud pethau'n well.

## Mae gan bobl fwy o anghenion nag erioed o'r blaen




Fe ddywedodd llawer o wasanaethau fod gan bobl sy'n derbyn cymorth fwy o anghenion nag o'r blaen.



Mae anghenion rhai pobl wedi newid oherwydd y pandemig.

## Cyflogaeth fel rhan o wasanaethau dydd




Rydyn ni'n credu fod helpu pobl ag anableddau i gael gwaith a chyfleoedd â thâl yn rhan bwysig o wasanaethau dydd.



Rydyn ni'n credu fod angen gwneud mwy i wneud i wasanaethau dydd a busnesau weithio gyda'i gilydd.



Rydyn ni'n credu bod eisiau gwneud mwy i wneud yn siŵr bod busnesau'n gwybod am gyfleoedd cyfartal.



Ac i fusnesau weld manteision cyflogi pobl ag anableddau.



Rydyn ni'n credu y dylai fod cymysgedd o gefnogaeth yn y ganolfan, cyfleusterau cymunedol a mwy o dechnoleg i helpu i gefnogi pobl.

# Technoleg



Pan wnaeth gwasanaethau dydd stopio yn y pandemig, roedd pobl yn defnyddio galwadau fideo a thechnoleg ffôn llawer mwy.



Mae hyn yn gwneud i bobl deimlo'n fwy cysylltiedig.



Ond roedd rhai pobl yn ei chael hi'n anodd gwneud hyn neu doedd ganddyn nhw ddim technoleg na chysylltiad rhyngrwyd da.

# Cludiant



Roedd llai o drafnidiaeth yn cael ei ddarparu gan wasanaethau yn ystod y pandemig.



Roedd hyn yn arbennig o wir am bobl sy’n byw yng nghefn gwlad.



Hyd yn oed ar ôl y pandemig, roedd rhai darparwyr yn cynnig llai o drafnidiaeth.

## Mae gwasanaethau dydd yn rhoi seibiant i deuluoedd



Fe wnaethon ni weld fod gwasanaethau dydd a gwasanaethau seibiant byr yn helpu teuluoedd yn ogystal â'r bobl sydd angen cymorth.



Fe wnaethon ni weld hefyd nad oedd gan y rhai sy'n derbyn gofal lais weithiau.



Rydyn ni'n credu ei fod yn bwysig bod pobl yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain am gymorth.




A phan nad ydyn nhw'n gallu gwneud penderfyniadau, fe ddylid gwneud beth sydd orau i'r person.

## Gofal a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn



Fe wnaeth y rhan fwyaf o ddarparwyr ddweud fod **cynllunio a chyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** yn bwysig.



Mae **Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** yn meddwl rhoi'r person wrth wraidd cynllunio ar gyfer eu bywyd.



Mae **cyd-gynhyrchu** yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.



Yn ystod ein hymweliadau, fe wnaethon ni weld rhai enghreifftiau da **o gyd-gynhyrchu** a ffyrdd o gynllunio sy'n **canolbwyntio ar y person**.



Fe ddylid defnyddio **cyd-gynhyrchu** wrth gynllunio, darparu ac **adolygu** gwasanaethau.



Dydy pob aelod o staff a gweithwyr proffesiynol ddim yn deall dulliau **cyd-gynhyrchu** neu **sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** o gynllunio.



Fe ddylid rhoi mwy o hyfforddiant iddyn nhw i'w deall.

## Comisiynu cyfleoedd dydd a gwasanaethau seibiant



**Comisiynu** ydy'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu trefnu a'u talu.



Fe wnaeth awdurdodau lleol ddweud wrthyn ni eu bod wedi gweithio'n agos gyda darparwyr yn ystod y pandemig. Mae hyn wedi helpu i adeiladu gwell perthynas rhyngddyn nhw.



Mae angen i **gomisiynwyr** weithio gyda darparwyr i wneud yn siŵr bod llawer o wasanaethau gwahanol ar gael.



Fe ddylai gwasanaethau fod ar gyfer pobl ar wahanol adegau yn eu bywydau ac mewn gwahanol leoedd.

# Beth rydyn ni'n meddwl ddylai ddigwydd



1. Fe ddylai **comisiynwyr** a darparwyr ddefnyddio ffyrdd **sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** o gynllunio, darparu a gwneud newidiadau i wasanaethau.



Fe fydd c**yd-gynhyrchu** yn bwysig iawn ar gyfer hyn.



2. Fe ddylai **comisiynwyr** a darparwyr ystyried defnyddio gwasanaethau cymunedol, mannau agored ac adnoddau lleol eraill.



3. Fe ddylai awdurdodau lleol a sefydliadau gydweithio i **adolygu** gwasanaethau. A chynnwys pobl sy'n eu defnyddio.



4. Fe ddylai helpu pobl i gael gwaith cyflogedig fod yn nod pwysig ar gyfer gwasanaethau.



Fe ddylai awdurdodau lleol a sefydliadau feddwl sut maen nhw'n gallu gwneud hyn yn haws i bobl.



Fe ddylai awdurdodau lleol a sefydliadau hefyd feddwl am sut maen nhw'n gallu cyflogi pobl eu hunain.



Fe ddylen nhw hefyd weithio gyda gwasanaethau cyflogaeth a pherchnogion busnes i helpu i wneud cyfleoedd.



5. Fe ddylai fod cynlluniau i staff gael eu hyfforddi a’u cefnogi i wella pethau.



6. Fe ddylid defnyddio technoleg digidol yn fwy i wella gwasanaethau. Mae hyn yn meddwl cyfrifiaduron a’r rhyngrwyd.



7. Fe ddylai Llywodraeth Cymru edrych ar ffyrdd o wneud cyllid gwasanaethau yn well.



Fe ddylen nhw hefyd feddwl am wneud y cyllid yn fwy cyfartal a theg.

# Sut rydyn ni'n gallu gwella pethau yn y dyfodol



Rydyn ni'n credu bod rhai problemau yn gallu cael eu datrys gyda **chomisiynu** gwell.



Rydyn ni'n credu bod ffyrdd gwell o adrodd yn ôl am wasanaethau.




Er enghraifft, dydy adrodd am y nifer o bobl sy'n mynychu gwasanaethau ddim yn dweud llawer wrthyn ni am ansawdd y gefnogaeth.



Fe ddylai newidiadau gael eu gwneud i wasanaethau yn araf fel bod pobl yn gallu dod i arfer â ffyrdd newydd o dderbyn cymorth.



Rydyn ni yn gwybod bod angen newid yn gyflym weithiau. Er enghraifft, os nad ydy'r gwasanaethau'n dda.



Fe ddylai newidiadau gael eu rheoli yn ofalus ac fe ddylen nhw gael eu **cyd-gynhyrchu**.



Pan mae cynlluniau yn cael eu gwneud ar gyfer newidiadau, fe ddylen nhw gael eu rhannu gyda'r cymunedau a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.



Fe ddylai'r cynlluniau fod yn hawdd eu deall.



Fe ddylai newidiadau gael eu **cyd-gynhyrchu a chanolbwyntio ar yr unigolyn**. Fe ddylid gofyn i bobl pa newidiadau maen nhw eisiau.



Fe ddylai staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau gael gwybod am newidiadau cyn gynted â phosibl er mwyn iddyn nhw allu cynllunio ar eu cyfer.



Fe ddylai staff hefyd dderbyn hyfforddiant fel eu bod nhw yn gallu rheoli'r newidiadau'n dda.



Rydyn ni'n credu bod gwasanaethau yn gallu defnyddio gwahanol fannau cymunedol.



Mae angen dweud wrth deuluoedd a gofalwyr di-dâl am newidiadau.



Fe ddylai teuluoedd a gofalwyr di-dâl fod yn rhan o drafodaethau am y gwasanaethau.




Fe fydd hyn yn helpu teuluoedd a gofalwyr di-dâl i gynllunio ar gyfer y newidiadau.

# Geiriau Anodd

### Adolygu

Mae adolygu'n meddwl edrych ar rywbeth a gweld ydy e wedi gwneud gwahaniaeth. Mae'n edrych beth sydd wedi cael ei wneud yn dda, a beth sydd yn gallu cael ei wneud yn well.

### Comisiynu

Comisiynu ydy'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu trefnu a'u talu.

### Cyd-gynhyrchu

Mae cyd-gynhyrchu yn meddwl bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu cynnwys ym mhob penderfyniad. Maen nhw yn cael eu hystyried yn bartneriaid cyfartal gyda gweithwyr proffesiynol.

### Cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

Mae Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn meddwl rhoi'r person wrth wraidd cynllunio ar gyfer eu bywyd.